Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Pwy yw pwy

## Gwasanaethau Tân ac Achub

- Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r tanau gwyllt a'u diffodd.
- Maen nhw'n ymchwilio i sut y dechreuodd y tanau gwyllt ac os cesglir digon o dystiolaeth, byddan nhw'n ceisio erlyn. Mae cynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithredu fel tystion arbenigol ac yn cynorthwyo'r Heddlu i geisio cyfiawnder.
- Efallai y bydd angen peilotiaid hofrenyddion ymladd tân er mwyn casglu dŵr ac i ollwng dŵr ar y tân, yn dibynnu ar y dirwedd a maint y tân gwyllt.
- Y tu ôl i'r llenni bydd staff y swyddfa'n gweithio er mwyn helpu i gydlynu a chefnogi staff y sefydliad sydd ar y safle. Bydd ganddyn nhw hefyd rôl o ran rhoi'r diweddaraf i'r cyhoedd, rhannu gwybodaeth â sefydliadau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod am y sefyllfa wrth iddi ddatblygu.
- Bydd ymchwilwyr fforensig tanau gwyllt arbenigol yr adran dân ac achub ar y safle cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny, er mwyn ymchwilio i darddiad y tân ac i chwilio am dystiolaeth.

# Rheolwyr Tir

- Mae rheolwyr tir cyhoeddus, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau brys ar danau gwyllt. O agor gatiau i roi cyngor ar ba ffyrdd neu draciau sy'n addas ar gyfer cerbydau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, darparu mapiau o ardaloedd all gael eu heffeithio pan fydd tân gwyllt yn cynnau, i ddarparu gwybodaeth am ba fath o lystyfiant sy'n bresennol.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori Llywodraeth Cymru a thirfeddianwyr eraill e.e. ffermwyr, ar gamau ataliol a'r difrod economaidd ac amgylcheddol y mae'r tanau gwyllt wedi'i achosi.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y dasg o atal tanau gwyllt trwy gynnwys gwytnwch yn erbyn tanau gwyllt fel rhan o gynllunio rheoli coedwigoedd a glaswelltir. Mae hyn yn golygu bod cynefinoedd yn cael eu gwneud yn fwy gwydn yn erbyn tanau gwyllt trwy reoli'r llwyth tanwydd yn ofalus e.e. cael gwared ar redyn yn rheolaidd a chreu rhwystrau tân (ardaloedd lle nad oes llystyfiant).
- Efallai y bydd yn rhaid i dirfeddianwyr preifat, rheolwyr a staff maes sy'n gweithio yn yr ardal, e.e. ffermwyr, fod ar y safle i gefnogi'r gwasanaethau brys, gan ddarparu mynediad i'r safle.
- Mae'n bwysig bod tirfeddianwyr mewn ardaloedd sy'n tueddu i brofi tanau gwyllt yn ymwybodol o'r hyn y gallan nhw ei wneud i leihau'r risg o danau gwyllt a hybu adferiad byd natur pe bai tân gwyllt yn digwydd. Gallant leihau'r risg o ddifrod i'w tir a'u heiddo trwy greu parth amddiffynnol sy'n llai tebygol o fynd ar dân trwy reoli faint o lystyfiant y gall tân ei lyncu. Er enghraifft, llosgi llystyfiant neu danwydd mewn pentyrrau yn hytrach na llosgi ardal gyfan, creu rhwystrau tân, pori da byw er mwyn cadw llystyfiant dan reolaeth, teneuo a thocio coed a chlirio llystyfiant o amgylch strwythurau.
- Efallai y bydd angen i ffermwyr symud eu da byw, eu cnydau wedi'u cynaeafu a pheiriannau fferm i ardaloedd mwy diogel os bydd tân gwyllt.
- Efallai y bydd angen i dirfeddianwyr ail-hadu neu blannu ardal yn dilyn tân gwyllt. Gall hyn achosi cost uchel o ran arian ac amser. Gall plannu planhigion sydd â lefel uchel o leithder, fel gweiriau a blodau, helpu i leihau'r risg o danau gwyllt. Gall cadw planhigion sydd yn y parth amddiffynnol wedi'u dyfrio'n dda hefyd gynyddu eu gallu i wrthsefyll tân.

## Perchnogion Busnes

- Gallai rhai busnesau lleol gael eu heffeithio'n negyddol gan dân gwyllt, a'u gorfodi i gau oherwydd eu hagosrwydd at y tân gwyllt. Gallai busnesau eraill fod yn brysurach nag erioed. Er enghraifft, efallai y bydd gwasanaethau lleol fel gwestai a bwytai yn darparu ar gyfer cynrychiolwyr y cyfryngau.
- Os yw tân gwyllt yn bygwth eiddo, gall perchnogion busnesau lleol helpu drwy sicrhau bod diffoddwyr tân yn gallu cyrraedd yr eiddo'n hawdd. Mae angen cadw mynedfeydd yn glir a dylid cael gwared ar unrhyw ddeunydd fflamadwy posibl e.e. coed tân a sbwriel.

## Y Cyhoedd

- Pobl sy'n arfer mynd heibio'r lle e.e. cerddwyr cŵn, loncwyr, pobl ar eu ffordd i'r gwaith neu'r ysgol, neu bobl sy'n byw mewn tai cyfagos yw'r rhai cyntaf yn aml i sylwi ar bobl eraill yn ymddwyn yn amheus neu i adnabod arwyddion tân gwyllt.
- Mae angen i'r cyhoedd gadw'u hunain yn ddiogel os oes tân gwyllt, a hynny drwy osgoi'r ardal a dilyn unrhyw arwyddion neu ganllawiau diogelwch. Gall hyn achosi anghyfleustra ac atal gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio fel teithio neu hamdden.
- Yn aml, y cyhoedd yw'r cyntaf i seinio'r rhybudd drwy gysylltu â'r gwasanaethau brys neu'r tirfeddiannwr ac maen nhw'n gallu darparu gwybodaeth hollbwysig sy'n sicrhau ymateb effeithiol. Gall darparu gwybodaeth am leoliad a maint y tân gwyllt, pa mor fuan mae'n ymledu a'r hyn sydd dan fygythiad uniongyrchol fod o help i'r gwasanaethau brys ganfod a delio â'r tân gwyllt yn gyflym ac yn effeithiol.

## Gwasanaethau a sefydliadau defnyddiol

- Efallai y bydd angen i wasanaethau cyfleustodau gymryd camau brys. Er enghraifft, efallai y bydd yn rhaid i gwmnïau dŵr sicrhau bod dŵr ar gael ar gyfer diffodd tân neu wirio ansawdd unrhyw ffynonellau dŵr sy'n cael eu heffeithio. Efallai y bydd angen i gwmnïau ynni wirio, ac o bosibl, ddiffodd piblinellau a pheilonau.
- Efallai y bydd angen i gynghorau ddarparu llochesi brys er mwyn rhoi cartref dros dro i'r rhai sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi.
- Mae elusennau fel y Groes Goch, yn cefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan danau gwyllt, trwy ddarparu bwyd a lloches i'r rhai sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi.
- Efallai y bydd angen galw ar weithwyr milfeddygol proffesiynol i ddod i'r lleoliad i helpu i achub a thrin bywyd gwyllt neu dda byw allai fod wedi eu dal a'u hanafu yn y tân gwyllt.
- Bydd meteorolegwyr neu bobl y tywydd yn rhoi cyngor ar gyflymder a chyfeiriad y gwynt, lleithder, glaw a mwy, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol y gellir ei defnyddio i helpu i reoli tân gwyllt.

## Y Cyfryngau

- Gall timau newyddion deithio i'r ardal i weld yr olygfa, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa i bobl yn lleol ac yn genedlaethol.
- Mae'n bosibl y bydd newyddiadurwyr, gweithredwyr camera, recordwyr sain, blogwyr a flogwyr i gyd yn gweithio er mwyn adrodd y stori.
- Efallai y defnyddir gweithredwyr dronau i wneud ffilmiau fideo a thynnu ffotograffau o'r lleoliad, yn ystod neu ar ôl tân gwyllt.

## Y System Gyfreithiol

- Bydd swyddogion Cyfreithiol a swyddogion Llys yn rheoli'r broses o erlyn ac amddiffyn unrhyw un sy'n cael ei gyhuddo o gychwyn tân gwyllt yn fwriadol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr, barnwyr, swyddogion diogelwch llys, stenograffyddion ac artistiaid.
- Caiff aelodau'r rheithgor eu dewis o blith y boblogaeth leol.
- Bydd swyddogion adsefydlu, prawf a charchar yn rheoli carcharu posibl ac adsefydlu unrhyw un a geir yn euog o gychwyn tân gwyllt yn fwriadol.

## Y sawl sy'n dechrau tân

- Rhywun a allai fod wedi cynnau'r tân gwyllt yn anfwriadol trwy weithredoedd diofal. Er enghraifft, ysmygwyr diofal sy'n taflu eu bonion sigaréts neu wersyllwyr anghyfrifol sy'n gadael eu tân gwersyll heb unrhyw un yn gofalu amdano neu heb ei ddiffodd yn llwyr.
- Llosgwr bwriadol sydd wedi cynnau tân gwyllt yn fwriadol, sydd wedi'i ysgogi gan amrywiaeth o resymau gan gynnwys fandaliaeth, ymgais i guddio trosedd arall, eithafiaeth, er mwyn dial, er mwyn y wefr, er elw neu oherwydd eu bod yn dioddef o broblemau iechyd meddwl.
- Teulu a ffrindiau'r sawl sy'n cynnau'r tân a fydd, o bosib, yn gorfod delio â'r rhai sy'n cael eu heffeithio; efallai y bydd y cyfryngau'n gofyn iddyn nhw am sylwadau neu mae'n bosib y byddan nhw'n cael eu gorfodi i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad i'r tân gwyllt a'r camau cyfreithiol dilynol.

## Perchnogion tai lleol

- Os yw tân gwyllt yn fygythiad i'w heiddo, gall perchnogion tai helpu drwy wneud yn siŵr bod diffoddwyr tân yn gallu cyrraedd eu heiddo'n hawdd drwy sicrhau bod unrhyw fynedfa'n glir. Mae angen iddyn nhw sicrhau nad yw deunydd allai losgi o bosibl yn cael ei storio o amgylch eu heiddo. Er enghraifft, tanciau nwy a choed tân.
- Os ydyn nhw'n byw mewn ardal risg uchel, gall perchnogion tai sicrhau bod ganddyn nhw fag brys i storio'u heitemau hanfodol rhag ofn y bydd angen iddyn nhw adael eu cartref ar fyr rybudd. Gallan nhw hefyd fod wedi paratoi cynllun dianc os oes tân gwyllt yn digwydd.

## Gwirfoddolwyr

- Efallai y gofynnir i bobl yn yr ardal leol wirfoddoli i gefnogi'r gwasanaethau brys a phartïon eraill â diddordeb, trwy gyflenwi lluniaeth neu fannau gorffwys oddi wrth y rheng flaen wrth i bobl ymladd tân gwyllt.
- Gellid gofyn am wirfoddolwyr i gefnogi'r gymuned sy'n cael ei heffeithio neu i gynorthwyo'r gwasanaethau brys. Er enghraifft, gofyn i ddiffoddwyr tân a nyrsys sydd wedi ymddeol i ddychwelyd i'r gwasanaeth dros dro i gymryd lle aelodau o'r gymuned sydd wedi'u dadleoli.
- Efallai y bydd angen gwirfoddolwyr i gefnogi'r broses o symud pobl neu anifeiliaid o ardaloedd sydd mewn perygl.